GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella
Performance and Improvement

# Gwobrau GIG Cymru 2026

## Cyfleoedd am Nawdd



**Mae noddi Gwobrau GIG Cymru yn ffordd bwerus i'ch sefydliad wneud gwahaniaeth, trwy ein helpu i gydnabod a dathlu'r timau eithriadol ar draws GIG Cymru sy'n sbarduno gwelliannau ac yn trawsnewid gwasanaethau.**

Mae Gwobrau GIG Cymru yn dychwelyd yn 2026 i arddangos timau sy'n sbarduno gwelliannau mewn ansawdd, diogelwch a pherfformiad er mwyn trawsnewid gwasanaethau, profiadau a chanlyniadau i bobl yng Nghymru.

Bellach ar drothwy eu deunawfed flwyddyn, mae'r gwobrau wedi mynd o nerth i nerth, ac wedi denu niferoedd cynyddol o geisiadau o ansawdd uchel. Disgwylir i wobrau 2026 fod y rhai mwyaf cyffrous hyd yma. Am y tro cyntaf, gall cydweithwyr ar draws GIG Cymru chwarae rhan uniongyrchol drwy hyrwyddo timau ar y rhestr fer a helpu i ddewis yr enillwyr.

Rydym wrth ein bodd yn eich gwahodd i fod yn rhan o'r digwyddiad mawreddog hwn, sy'n tynnu sylw at gyflawniadau rhyfeddol timau sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn.

# Tystebau

**Dyma sydd gan rai o'r cyn-gystadleuwyr i'w ddweud am effaith a gwerth Gwobrau GIG Cymru:**



**"Cefais fy ysbrydoli i feddwl am ragor o ffyrdd o wella ein gwasanaeth, roedd yn hynod gymhellol."**

**"Roedd yn anhygoel gweld yr holl waith rhagorol sy'n digwydd ledled Cymru a theimlo bod y gwaith hwn yn cael ei 'werthfawrogi' a'i fod yn cael y gydnabyddiaeth y mae'n ei haeddu."**





**"Mae clywed am yr holl waith gwych sy'n digwydd yn GIG Cymru yn gwneud i chi deimlo'n falch iawn."**

# Pecynnau nawdd

**Noddwr aur**
**(un cyfle ar gael)**

**£2,500 + TAW**

### Cydnabyddiaeth fel prif noddwr

### Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Sylw amlwg ar dudalen lanio gwefan Gwobrau GIG Cymru ac adran bwrpasol yn cynnwys bywgraffiad, logo a manylion cyswllt y cwmni (gwybodaeth i'w darparu gan y cwmni)
- Logo'r cwmni yn cael ei gynnwys ar wefan y gwobrau a baner ar y sianel cyfryngau cymdeithasol
- Logo'r cwmni ar y clawr blaen a phroffil wedi'i gynnwys yn rhaglen y digwyddiad (copi digidol neu gopi caled i'w gadarnhau)
- Cydnabyddiaeth o'r cwmni ar lafar yn ystod y seremoni wobrwyo
- Logo'r cwmni yn cael ei gynnwys ar bostiadau cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo nawdd eich sefydliad
- Logo'r cwmni yn cael ei arddangos ar bosteri prosiectau, sleidiau ar y brif sgrin arddangos, tlysau a thystysgrifau
- Lle ar gyfer stondin hyrwyddo yn y digwyddiad
- Sylw mewn stori newyddion ar ôl y digwyddiad
- Pedwar tocyn i fynd i'r seremoni wobrwyo

**Noddwr arian**
**(dau gyfle ar gael)**

**£1000 + TAW**

### Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Logo a gwybodaeth am y cwmni ar wefan Gwobrau GIG Cymru
- Cydnabyddiaeth a logo'r cwmni yn rhaglen y digwyddiad (copi digidol neu gopi caled i'w gadarnhau)
- Cydnabyddiaeth ar lafar yn ystod y seremoni wobrwyo
- Logo'r cwmni wedi'i gynnwys ar bostiad cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo nawdd eich sefydliad
- Logo'r cwmni wedi'i gynnwys ar dystysgrifau
- Dau docyn i fynd i'r seremoni wobrwyo


**Noddwr efydd**

**£500 + TAW**

### Mae'r pecyn hwn yn cynnwys:

- Logo a gwybodaeth am y cwmni ar wefan Gwobrau GIG Cymru
- Cydnabyddiaeth a logo'r cwmni yn rhaglen y digwyddiad (copi digidol neu gopi caled i'w gadarnhau)
- Cydnabyddiaeth ar lafar yn ystod y seremoni wobrwyo
- Logo'r cwmni wedi'i gynnwys ar bostiad cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo nawdd eich sefydliad

## Dyddiadau Allweddol




## Y seremoni

Cynhelir digwyddiad dathlu gyda'r nos yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Bydd rhagor o fanylion am y digwyddiad yn cael eu rhyddhau cyn bo hir.

# Cysylltu â ni

Byddem wrth ein bodd petaech yn ymuno â ni yn y digwyddiad arbennig hwn fel noddwr.

Cysylltwch â Thîm Gwobrau GIG Cymru i drafod y cyfleoedd noddi sydd ar gael:

gwobraugigcymru@wales.nhs.uk

Gwobrau GIG Cymru 2026

gwobraugig.cymru